

# Polisi Cludiant i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Fel y mabwysiadwyd gan gyfeirio at Fesur Teithio Gan Ddysgwyr Cymru, Lywodraeth Cymru.

## Darparu cludiant am ddim – Ysgolion Prif Ffrwd

Mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol i wneud trefniadau teithio addas i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol – o'r dosbarth derbyn hyd at ddiwedd Blwyddyn 11, sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, gan ddarparu cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i "bellter cerdded" i'r ysgol honno. Mae'r gyfraith yn diffinio "pellter cerdded" fel mwy na dwy filltir i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd a thros dair milltir i ddisgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd. Mae'r Awdurdod yn pennu mai'r ysgol addas agosaf yw'r ysgol agosaf at gyfeiriad cartref sy'n darparu'r addysg berthnasol i oed, gallu a dawn y disgybl (gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, uned cyfeirio disgyblion). Caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael o'r cartref i'r ysgol, a allai gynnwys llwybrau cyhoeddus. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un sy'n cael ei ystyried yn ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu i gerdded ar ei hyd ar ben ei hun, neu gyda hebryngwr os oes angen yn sgil oed y plentyn.

## 1 Proses Asesu

Mae'r asesiad o'r Ysgol agosaf yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r system feddalwedd ONE Adran Addysg y Cyngor – sy'n cael ei defnyddio gan nifer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r haen fapio GPS sy'n cael ei defnyddio i asesu mesuriadau'n cael ei hadolygu pob mis Hydref ac mae unrhyw newidiadau i'r Isadeiledd Priffyrdd yn y Sir yn cael eu cynnwys. Nid yw unrhyw systemau mapio eraill, fel Google Maps neu AA Route Finder, yn cael eu hystyried wrth asesu. Mae'r ysgol agosaf ar gyfer yr asesiad cludiant am ddim yn cael ei nodi trwy gyfrifo'r llwybr cerdded byrraf o'r cartref i'r ysgol. Caiff y llwybr i'r ysgol ei fesur o'r cartref at giât agosaf yr ysgol, a gallai gynnwys llwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffylau a llwybrau eraill, yn ogystal â ffyrdd sydd wedi'u mabwysiadu. Nid dyma'r llwybr byrraf ar hyd y ffordd, o reidrwydd. Unwaith y nodir yr ysgol agosaf ar asesiad gan y system ONE, caniateir cludiant os yw dros 3 milltir ar gyfer ysgol Uwchradd neu 2 filltir ar gyfer ysgol Gynradd fodd bynnag, gwrthodir cludiant os yw'n llai na 3 milltir ar gyfer ysgolion Uwchradd neu 2 filltir ar gyfer ysgolion Cynradd. Bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau gan rieni am gludiant am ddim i ddisgyblion sy'n byw o fewn y pellter cerdded statudol i'r ysgol addas agosaf yn ôl rhinweddau'r ceisiadau pan mae'n ystyried nad yw'r llwybr i'r ysgol ar gael. Ym mhob achos, bydd ffurf y cludiant yn dibynnu ar ddefnydd effeithlon o adnoddau. Gall cludiant gael ei ddarparu trwy wasanaeth cludiant i'r ysgol dan gontract a/neu ddefnyddio gwasanaeth cludiant cyhoeddus presennol. Pan mae disgyblion yn mynd i ysgol ar wahân i'r un addas agosaf o ganlyniad i ddewis y rhieni, rhaid deall y bydd y cyfrifoldeb dros y trefniadau cludiant ar ysgwyddau'r rhieni'n llwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol yn ogystal â thalu'r costau. Os yw rhieni/gofalwyr yn dymuno gwirio pa un yw eu hysgol addas agosaf, gallant wneud hynny trwy gysylltu ag Uned Gludiant i'r Ysgol y Cyngor. Gall disgyblion o oedran cymysg, fel disgyblion oed cynradd ac uwchradd, deithio yn yr un cerbydau, yn ogystal â

disgyblion o wahanol gefndiroedd enwadol ac ieithyddol. Nid oes modd trefnu bod llwybrau'r cerbydau yn mynd heibio i gartrefi pob disgybl. Felly, efallai y bydd angen gwneud trefniadau i ddisgyblion gyrraedd man casglu agosaf y cerbyd. Bydd hyn o fan sy'n gymharol agos at gartref y plentyn i fan sy'n gymharol agos at yr ysgol – nid drws yr ysgol, ond yn gymharol agos ato.

## **2 Diffiniad o'r Meini Prawf**

Ystyrir mai ysgol addas yw'r ysgol agosaf a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) at gartref y disgybl ar hyd y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael, sy'n daprau addysg ar gyfer oedran, gallu a dawn y disgybl perthnasol, ac / neu ar gyfer unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd ganddo / ganddi. Yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf - Ysgol Morgan Llwyd yw'r unig Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a'r ysgol ffydd agosaf – St Joseph's yw'r unig Ysgol Ffydd Uwchradd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Nid yw'r AALI yn gyfrifol am gost cludiant lle mae dewis y rhieni'n golygu fod disgybl yn cael ei roi mewn ysgol neu gyfleuster heb law am yr ysgol addas agosaf neu i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau eraill lle mae derbyn i'r ysgolion hynny yn ganlyniad i ddewis y rhieni, oni bai mai'r ysgol honno yw'r ysgol agosaf neu ar gyfer disgyblion sy'n byw'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ond yn derbyn eu haddysg yn un o ysgolion y Fwrdeistref Sirol. Dylid gwneud cais i'r Awdurdod maent yn byw ynddi, os yw hynny'n briodol. Mae'n ofynnol i'r AALI ddarparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion cymwys o oedran ysgol gorfodol. Nid yw'r AALI yn darparu cludiant ar gyfer disgyblion sy'n mynd i'r Ysgol Feithrin na Dosbarthau Meithrin yn dair oed. Nid yw'r AALI yn darparu cludiant i ysgolion chweched dosbarth a cholegau i fyfyrwyr ôl-16.

## **3 Cyfrifoldeb Rhieni**

Mae rhieni yn gyfrifol am y canlynol:

- i) cludo eu plentyn i'r ysgol ac o'r ysgol pan nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim;
- ii) gwneud cais am gludiant am ddim i bennu a yw eu plentyn yn gymwys;
- iii) rhoi gwybod i'r AALI a'r ysgol am newidiadau i amgylchiadau a allai effeithio ar gludiant;
- iv) sicrhau bod eu plentyn yn barod ac yn aros am gludiant yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Pan mae plant yn cael eu casglu/gollwng yn y cartref, mae'r rhiant yn gyfrifol am hebrwng y plentyn i ac o ddrws y cerbyd;
- v) gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ymddygiad eu plentyn yn gymdeithasol dderbyniol;
- vi) diogelwch eu plentyn wrth fynd i ac o'r man casglu/gollwng a gytunwyd arno.
- vi) sicrhau bod eu plentyn/plant yn ymwybodol o ac yn deall [Cod Ymddygiad wrth Deithio Cymru](#).

## **4 Ymddygiad Disgyblion**

Dan ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, gall unrhyw gamymddwyn gan ddisgyblion wrth deithio ar gludiant ysgol a allai effeithio ar ddiogelwch disgyblion, gyrwyr, hebryngwyr a/neu ddefnyddwyr eraill y ffordd arwain at gosbau a/neu wrthod cludiant. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd rheolau disgyblu arferol yr ysgol yn cael eu defnyddio.

## **5 Amser Siwrneiau**

Nid yw'r Polisi'n nodi terfyn amser ar gyfer siwrneiau, ond bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu amseroedd siwrneiau:

Natur, diben ac amgylchiadau pob siwrnai / oedran y dysgwr / unrhyw anghenion arbennig sydd gan y dysgwr / lleoliad cartref y dysgwr mewn perthynas â'r ysgolion sydd ar gael.

## **6 Trefniadau Casglu a Gollwng**

Darperir cludiant fel arfer i ac o safleoedd bws neu fannau codi ar gyfer grwpiau o ddisgyblion.

Darperir cludiant o ddrws-i-ddrws mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Bydd angen i ddisgyblion fynd i fan codi dynodedig wrth ymyl eu cartrefi. Ni fydd unrhyw ddisgybl/myfyriwr sy'n gymwys i gael ei gludo ar lwybr contract yn gymwys i gael cludiant y tu allan i amserlen ddyddiol arferol y contract. Dylai rhieni sicrhau bod eu plentyn (Ren) yn bresennol yn y manau casglu/gollwng dynodedig 10 munud cyn mae disgwyl i'r cerbyd gyrraedd. Os na ellir gwneud unrhyw gyswilt, rhaid i ddarparwyr cludiant gysylltu â'r Uned Gludiant Integredig i gael cyfarwyddyd. Efallai y bydd darparwyr cludiant yn cael cyfarwyddyd i fynd â phlant i'r lle diogel agosaf neu yn ôl i'r ysgol pe nai bai rhiant neu ofalwr yn gallu dod i gyfarfod y plentyn yn y man casglu/gollwng penodol. Efallai y bydd cost ychwanegol hyn yn cael ei chodi ar rieni.

## **7 Trefniadau Cludiant Ychwanegol**

Os yw contractwr wedi darparu cerbyd addas yn y man ac ar yr amser penodol, ac nad yw'r rhiant na'r disgybl yn bresennol yn y man hwnnw, ni fydd unrhyw ddarpariaeth arall yn cael ei darparu'r diwrnod hwnnw.

## **8 Cludiant i Ysgolion Gwirfoddol a Chyfrwng Cymraeg**

Bydd disgyblion sy'n mynd i'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr agosaf, yr Ysgol Wirfoddol a Reolir neu'r ysgol Cyfrwng Cymraeg agosaf yn derbyn cludiant am ddim cyn belled mai honno yw'r ysgol addas agosaf o'r math hwnnw a'u bod yn byw y tu hwnt i'r pellter cerdded sydd wedi'i ddiffinio yn (1. Proses Asesu). Bydd disgyblion sy'n mynd i'r ysgol agosaf y gallant ddysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ynddi fel mae wedi'i ddisgrifio yng Nghymru, o ran y Gymraeg a Diwylliant, yn derbyn cludiant am ddim cyhyd mai honno yw'r ysgol addas agosaf o'r math hwnnw a'u bod yn byw y tu hwnt i'r pellter cerdded sydd wedi'i ddiffinio yn (1. Proses Asesu).

## **9 Trefniadau Teithio at Ddarparwyr Hyfforddiant Eraill neu Brofiad Gwaith**

Bydd trefniadau teithio addas yn cael eu gwneud ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol, sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, sy'n derbyn eu haddysg neu eu hyfforddiant mewn gwahanol sefydliadau addysgol neu ddarparwyr hyfforddiant ar wahanol ddiwrnodau'r wythnos, neu sy'n mynd i leoliad profiad gwaith awdurdodedig, cyhyd â bod y llwybr hwnnw o'r cartref i'r sefydliad yn bellach na'r pellter cerdded sydd wedi'i nodi yn (1. Proses Asesu). Gallai hyn fod trwy dalu am gostau teithio'r disgybl. Fodd bynnag, ni fydd yr Awdurdod yn gyfrifol am y trefniadau teithio rhwng sefydliadau neu safleoedd addysgol.

## **10 Cludiant i Ysgolion mewn Awdurdodau Cyfagos**

Bydd disgyblion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n mynd i ysgolion mewn awdurdodau cyfagos yng Nghymru yn cael cludiant am ddim os mai'r ysgol maent yn ei mynychu yw'r ysgol addas agosaf a'u bod yn byw y tu hwnt i'r pellter cerdded sydd wedi'i nodi yn (1. Proses Asesu). Fodd bynnag, os nodir fod eu hysgol agosaf yn Lloegr, bydd disgyblion yn derbyn cludiant am ddim i'r ysgol agosaf ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam os oes ar y rhieni angen addysg yn ôl cwricwlwm Cymru.

## **11 Cludiant Arbennig ar Sail Feddygol**

Efallai y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar sail feddygol er mwyn i'r disgybl allu dod i'r ysgol maent wedi cofrestru ynddi yn ôl argymhelliad Swyddog Meddygol Ysgolion dynodedig yr Awdurdod os nad oes cludiant cyhoeddus addas.

## **12 Cludiant Pris Gostyngol**

O dro i dro, mae'n bosib y bydd y nifer o ddisgyblion sydd i'w cludo gan yr Awdurdod yn is na'r nifer o seddi ar y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar y llwybr penodol. Mewn achosion o'r fath, bydd yr Awdurdod yn cadw'r hawl i gynnig seddi gwag i blant sy'n mynd i'w hysgol agosaf ac sy'n byw lai na'r pellter statudol sydd wedi'i nodi yn (1. Proses Asesu) cyn belled bod seddi o'r fath ar gael. Rhaid deall nad yw ddarparu seddi am bris gostyngol yn rhwymedigaeth barhaus ar yr Awdurdod i ddarparu cludiant a'i fod yn dibynnu'n llwyr a oes seddi gwag ar gael. Felly, efallai y bydd seddi pris gostyngol yn cael ei tynnu'n ôl ar fyr rybudd, pe bai eu hangen ar gyfer disgyblion sydd â hawl sy'n gofyn am ddarpariaeth. Bydd seddi prisiau gostyngol yn costio £100 y tymor i rieni a bydd y tâl hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

## **13 Newid cyfeiriad**

Bydd rhieni sy'n symud cyfeiriad ac sy'n dymuno i'w plentyn aros yn eu hysgol bresennol, pan nad hon yw eu hysgol addas agosaf, yn colli'r hawl i barhau i gael cludiant am ddim i'r ysgol.

## **14 Cau Ysgolion – Trefniadau Cludiant**

Os bydd ysgol yn cau, efallai y bydd cludiant â chymorth yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion a oedd wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar adeg ei chau ac sy'n gorfod teithio ymhellach i'w hysgol addas agosaf newydd, lle bo hynny'n cael ei ystyried yn briodol yn sgil y trefniadau y cytunwyd arnynt yng nghynllun cau'r ysgol.

## **15 Plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol / Anghenion Arbennig ADY/ AAA.**

Bydd trefniadau cludo addas yn cael eu gwneud ar gyfer plentyn gydag ADY / AAA gan ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol neu sefydliad addysgol arall pan fyddant yn cael eu hatgyfeirio gan Adran Addysg ADY / Cynhwysiant y Cyngor.

## **16 Plant sy'n Derbyn Gofal**

Bydd trefniadau cludiant addas yn cael eu gwneud ar gyfer plentyn, o oedran ysgol gorfodol, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, gan ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol neu sefydliad addysgol arall y maen nhw wedi cofrestru ynddo os ydynt y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol neu'r

sefydliad, fel y diffinnir yn (1. Proses Asesu) ar ôl cael atgyfeiriad gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

### **17 Cludiant Ôl-16**

Ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu cludiant i ysgolion a cholegau chweched dosbarth ar gyfer myfyrwyr ôl-16. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw fyfyrwyr a arferai dderbyn cludiant yn sgil eu datganiad ADY. Cyngorir myfyrwyr ôl-16 sydd angen cludiant i gysylltu â'u sefydliad chweched dosbarth am wybodaeth a chyngor ynglŷn â threfniadau cludiant preifat a all fod ar gael.

### **18. Panel Gweithdrefn Apelio**

Gall rhieni apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Lleol. Os ydynt yn dewis gwneud hynny, mae'n rhaid iddynt nodi ar ba sail yn y Polisi Cludiant maent yn apelio. Dylid gwneud unrhyw apêl yn ysgrifenedig i:

Pennaeth yr Amgylchedd a Thechnegol, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL13 8BG.